



y gwasanaeth  
caffael  
cenedlaethol

national  
procurement  
service

# Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Adroddiad Blynyddol  
**2014/15**





# Cynnwys

1. Cyflwyniad – Sue Moffatt, Cyfarwyddwr GCC	1
2. Llywodraethu	2
3. Categoriâu	4
4. Cytundebau Contract a Fframwaith	12
5. Gwybodaeth Busnes	16
6. Cyfathrebu	17
7. Digwyddiadau Pwysig	18
8. Lefelau Staffio'r GCC	19
9. Ariannu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y Dyfodol – Cynhyrchu Incwm	22
10. Adroddiad Ariannol 2014-15	23
11. Y Dyfodol	24

# 1. Cyflwyniad

## Sue Moffatt, Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC)



Fel sefydliad newydd a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, prif ffocws GCC yw cyflawni contractau a fframweithiau drwy Gymru gyfan mewn meysydd gwariant cyffredin a rheolaidd. Y prif amcan yw Prynu Unwaith dros Gymru ac ymgorffori Datganiad Polisi Caffael Cymru i bob agwedd o'u gwaith yr un pryd.

Ein blaenoriaeth yn ein blwyddyn weithredol gyntaf oedd recriwtio tîm o weithwyr caffael proffesiynol, datblygu a gweithredu prosesau, trosglwyddo contractau presennol a sefydlu a phenderfynu ar ein rhaglen waith yn y dyfodol.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi ein bod wedi cyflawni hyn. Rydym wedi penodi staff llawn amser ar draws Cymru gyfan, rydym wedi trosglwyddo nifer fawr o gontractau ac rydym yn gymwys i gyflawni nifer gychwynnol o gaffaeliadau cydweithredol sy'n werth hyd at £1.1 biliwn.

Mae ysgogi caffael cydweithredol yn elfen ganolog o waith GCC. Mae'r toriadau i

gyllidebau'r sector cyhoeddus yn golygu bod yr arbedion y gall caffael cydweithredol eu cynnig yn hollbwysig er mwyn darparu'r arbedion arian parod ar gyfer ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau gweithredol rheng flaen ar hyd a lled Cymru.

Ar ddiwedd ein blwyddyn ariannol lawn gyntaf, ein carreg filltir gyntaf, gallaf gyhoeddi arbedion arian parod o fwy na £7 miliwn gan GCC a chontractau eraill y sector cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdanynt, ac mewn rhai achosion rydym wedi'u hail-negodi er mwyn gwella eu gwerth. Mae hyn wedi rhagori ar y swm a nodwyd yn yr Achos Busnes Amlinellol.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad i leihau biwrocratiaeth i gyflenwyr, cynnal pob proses gaffael mewn dull amserol, yn unol â chyfreithiau caffael yr UE ac yn seiliedig ar fethodoleg ddarbodus. Rydym hefyd yn gweithredu mewn dull agored, ac yn cyhoeddi unrhyw eithriadau. Mae'r GCC yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored bob amser.

Ym mis Mawrth, croesawodd GCC, mewn cydweithrediad â Gwerth Cymru a Busnes Cymru, fwy na 500 o gynrychiolwyr i ddigwyddiad byw cyntaf Procurex Wales. Y digwyddiad hwn oedd y casgliad mwyaf o weithwyr caffael proffesiynol yng Nghymru a oedd yn cysylltu prynwyr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda chyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr. Bu'r digwyddiad yn llwyddiannus iawn ac mae wedi helpu i godi proffil caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Roeddem yn rhagweld y byddai'r flwyddyn gyntaf yn gyfnod pontio, yn gyfle i greu'r tîm a dechrau casglu'r dystiolaeth y gall GCC gyflawni gwerth am arian ac ysgogi cynnydd yn nifer y cyflenwyr o Gymru sy'n sicrhau busnes yn y sector cyhoeddus. Mae'n gyfnod cyffrous iawn i'r GCC yng Nghymru, wrth inni barhau i weithio'n fwy effeithlon a chydweithredol ar ran y sector cyhoeddus. Mae gennym dîm o unigolion ymroddedig ac arbenigol sy'n eiddgar i ymateb i'r heriau yn y dyfodol.



## 2. Llywodraethu

Yn dilyn argymhelliad adolygiad John McClelland o lywodraethu caffael ar hyd a lled Cymru, a gomisiynwyd gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, roedd creu gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn golygu bod angen cytuno ar strwythur llywodraethu ar gyfer GCC, strwythur wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog.

### Bwrdd GCC

Mae'r GCC yn atebol i Fwrdd GCC sy'n cynnwys Cynrychiolwyr y Prif Swyddog Gweithredol o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a hwy sy'n goruchwyllo cyfeiriad strategol GCC. Roedd Bwrdd GCC yn cwrdd bob dau fis yn wreiddiol, ond mae'n cwrdd bob chwarter erbyn hyn. Mae cynrychiolwyr y sector yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y GIG, Addysg, yr Heddlu, Llywodraeth Leol, y Gwasanaeth Tân ac Achub a chyrrff a noddir gan y Llywodraeth.

Cadeirydd Bwrdd GCC yw Steven Morgan, y Weinyddiaeth Amddiffyn, a benodwyd am

gyfnod o dair blynedd, o dan ' egwyddorion Nolan' a chadeiriodd ei gyfarfod cyntaf ym Mehefin 2014. Cynhaliwyd dau gyfarfod cyn hyn gan Neil Frow – Cyfarwyddwr, Cydwasanaethau'r GIG, yn ei rôl fel cadeirydd dros dro.

### Grŵp Cyflawni

Mae Grŵp Cyflawni'r GCC yn cynnwys uwch arweinwyr caffael o bob sector yn sector cyhoeddus Cymru. Ymhlith cynrychiolwyr y sector mae Llywodraeth Cymru, GIG, Addysg, yr Heddlu, Llywodraeth Leol, y Gwasanaethau Tân ac Achub a Chyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grŵp, sy'n cwrdd bob mis, yn darparu cyfeiriad gweithredol a chymeradwyaeth o raglen waith GCC, yn cynnwys cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â strategaethau caffael a sicrhau bod cynlluniau arbedion sy'n cael eu datblygu gan GCC yn gadarn a chyflawnadwy. Mae'r Grŵp Cyflawni yn cael ei gadeirio gan Sue Moffatt, Cyfarwyddwr GCC. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2014.

## Fforymau Categorïau

Mae Grwpiau Fforwm Categorïau wedi'u sefydlu i lunio strategaethau caffael cyn eu cyflwyno i'r Grŵp Cyflawni i'w cymeradwyo. Mae'r fforymau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr arbenigol, technegol a chwsmeriaid yn sicrhau bod ymgynghoriad priodol wedi'i gynnal gyda'r sector a bod rhwystrau at fabwysiadu'r strategaethau wedi'u lleihau. Grŵp Cyflawni'r GCC sy'n cytuno ar Aelodau'r Fforwm Categorïau.

## Dogfennaeth Llywodraethu

Mae cyfres o ddogfennaeth wedi'i pharatoi yn awr ar gyfer GCC, yn cynnwys cylch gorchwyl safonol, sydd wedi'u datblygu a'u cyflwyno ar gyfer pob un o'r fforymau llywodraethu uchod.

## Canllaw ar Eithrio

Ar y pwynt o ymrwmo i'r GCC, rhoddwyd cyfle i bob sefydliad eithrio o gategoriâu yng nghwmpas GCC. Pe na fyddai sefydliad yn

eithrio ar y cam hwnnw, yna mae'r sefydliad wedi ymrwmo ei hun i ddefnyddio'r contractau a'r fframweithiau a sefydlwyd gan GCC.

Mae proses 'eithrio' ffurfiol wedi'i chyflwyno yn awr, gyda phroses achos busnes a chymeradwyo neu wrthod penderfyniad achos busnes o dan drefniadau llywodraethu ac awdurdodaeth Bwrdd GCC. Pe byddai sefydliad sy'n aelod yn dymuno eithrio o ymarfer caffael, rhaid iddynt ddarparu cyfiawnhad ariannol a busnes manwl. Mae canllawiau manwl, templedi a siartiau llif wedi'u datblygu a'u dosbarthu i bob sefydliad sy'n aelodau.

## Siarter Cwsmeriaid

Ym Medi 2014 cwblhaodd GCC adolygiad o'r siarter cwsmeriaid. Cafodd y siarter cwsmeriaid ei datblygu'n wreiddiol yn Ionawr 2014, ac mae'n pennu rolau'r GCC, disgwyliadau sefydliadau cwsmeriaid a'r gwaith y bydd GCC yn ei wneud gyda chyflenwyr.



## 3. Categorïau

Mae'r GCC wedi cyflwyno dull gweithredu ar gyfer rheoli categorïau a sefydlwyd gyda 7 categori cyffredinol o wariant cyffredin a rheolaidd.

Mae gwariant cyffredin a rheolaidd yn cael ei bennu drwy reolau dosbarthu y cytunwyd arnynt gan ddefnyddio ProClass lefel 3 a dosbarthiad E-Class o gyfrifon gwariant taladwy sy'n cael eu cymryd o systemau cyllid rhanddeiliaid.

Un o'r cyflawniadau craidd ar gyfer blwyddyn weithredol 2014/15 GCC oedd adolygu'r Achos Busnes Amlinellol ac ail-ddatgan y targedau mewn cynllun busnes pedair blynedd. Un o'r

cyflawniadau hyn oedd cytuno ar ddsbarthiad o wariant.

Yn wreiddiol dim ond yn rhannol yr oedd bwyd wedi'i gynnwys, a gwnaed gwaith pellach i gwmpasu'r categori gyda Bwrdd GCC yn cytuno y byddai'r GCC yn ymgymryd â bwyd hefyd. Mae strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer hyn yn awr. Rhestrir manylion pob categori isod.


I weld fersiynau manwl a llawn piblinellau'r categorïau, ewch i wefan GCC:  
<http://nps.gov.wales/pipeline/future-pipeline>

## Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau


Mae'r categori adeiladu a rheoli cyfleusterau yn cwmpasu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i gynnal a chyflawni seilwaith ac adeiladau'r unfed ganrif ar hugain ar gyfer ein dinasyddion.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i baratoi i'r GCC ymgorffori Cyfleustodau fel maes yn ei bortffolio caffael o weithgarwch.

### Allwedd

 Paratoi (Dadansoddiad, Pwynt Penderfynu, Paratoi Dogfen)

 Gwerthusiad/Argymhelliad

 Tendir (Mae'r tendr yn weithredol ac yn agored i gyflwyno cynigion)

 Dyfarnu a Chyflwyno

Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau a Chyfleustodau – Piblinell Gweithgarwch Caffael									
Prosiect Arfaethedig	Gwerth Blynyddol Amcangyfrifedig	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
		Ebr-Meh 2015	Gorff-Med 2015	Hyd-Rhag 2015	Ion-Maw 2015	Ebr-Meh 2016	Gorff-Med 2016	Hyd-Rhag 2016	Ion-Maw 2016
Cynnal a chadw Peirianeg Sifil: Halen Craig	£4,250,000								
Cynnal a chadw Peirianeg Sifil: Marciau Ffordd	£200,000								
Cynnal a chadw Peirianeg Sifil: Cynnal a Chadw a Systemau Rheoli Traffig	£200,000								
Cynnal a chadw Peirianeg Sifil: Darparu Cynnyrch Goleuo Prifffyrdd	£2,500,000								
Deunyddiau Adeiladu: Trydanol, Gwresogi a Phlymio	£10,000,000								
Offer Adeiladu: Offer, Cyfarpar a Phrynu Offer	£10,634,727								
Offer Adeiladu: Offer, Cyfarpar a Llogi Offer	£10,634,727								
Deunyddiau Adeiladu: Polycarbonad Gwydr ac Unedau Gwydr Dwbl	£500,000								
Rheoli Cyfleusterau - Cam 1 - Gwasanaeth a Reolir - Rheoli Cyfleusterau Caled a Meddal	£30,000,000								
Rheoli Cyfleusterau - Camau Eraill - I'w Cadarnhau	£266,672,735								
Deunyddiau Glanhau a Phorthorol	£6,000,000								
Dodrefn, Gosodiadau, Ffitiadau a Lloriau: Offer Ffreutur Trwm	£900,000								





## Fflyd a Thrafnidiaeth

Mae'r categori fflyd a thrafnidiaeth yn cwmpasu pob math o gerbydau ac mae'r rhan fwyaf o is-gategoriâu yn yr adran hon yn ymwneud â cheir a faniau. Teitlau'r is-gategoriâu yw cerbydau ffordd, cerbydau rheilffordd, tanwydd ac ireidiau cerbydau a cherbydau eraill.

### Allwedd



Paratoi (Dadansoddiad, Pwynt Penderfynu, Paratoi Dogfen)



Gwerthusiad/Argymhelliad



Tendr (Mae'r tendr yn weithredol ac yn agored i gyflwyno cynigion)



Dyfarnu a Chyflwyno

Fflyd a Thrafnidiaeth – Piblinell Gweithgarwch Caffael									
Prosiect Arfaethedig	Gwerth Blynyddol Amcangyfrifedig	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
		Ebr-Meh 2015	Gorff-Med 2015	Hyd-Rhag 2015	Ion-Maw 2015	Ebr-Meh 2016	Gorff-Med 2016	Hyd-Rhag 2016	Ion-Maw 2016
Teiars a Gwasanaethau Cysylltiedig	£3,000,000								
Llogi Cytundebol / Cerbydau Trafnidiaeth ar Brydles	£12,347,000								
Cerbydau prynwyd	£6,521,000								
Trafnidiaeth Teithwyr	£169,924,232								
<b>Cyfanswm</b>	<b>£191,792,232</b>								








## Gwasanaethau Pobl

Mae'r categori gwasanaethau pobl yn cwmpasu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys meysydd megis teithio a llety, marchnata a'r cyfryngau, y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.






















### Allwedd

 Paratoi (Dadansoddiad, Pwynt Penderfynu, Paratoi Dogfen)

 Gwerthusiad/Argymhelliad

 Tendir (Mae'r tendr yn weithredol ac yn agored i gyflwyno cynigion)

 Dyfarnu a Chyflwyno

Gwasanaethau Cymorth Canolog a Busnes – Piblinell Gweithgarwch Caffael									
Prosiect Arfaethedig	Gwerth Blynyddol Amcangyfrifedig	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
		Ebr-Meh 2015	Gorff-Med 2015	Hyd-Rhag 2015	Ion-Maw 2015	Ebr-Meh 2016	Gorff-Med 2016	Hyd-Rhag 2016	Ion-Maw 2016
Gwasanaethau Amgylcheddol – Bagiau Gwastraff	£9,000,000								
Gwasanaethau Amgylcheddol – Casglu Gwastraff	TBC								
Adnoddau Dynol – Buddiannau Staff	£7,000,000								
Adnoddau Dynol – Hyfforddiant	£10,000,000								
Cymdeithasol a Gofal Iechyd – Teleofal	£3,500,000								
Trafnidiaeth – Teithio a Llety	£4,586,039								
<b>Cyfanswm</b>	<b>£34,086,039</b>								




## Gwasanaethau Proffesiynol

Mae'r categori gwasanaethau proffesiynol yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau cynghori ac arbenigol sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i helpu i gynllunio a chyflawni'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon.

### Allwedd

 Paratoi (Dadansoddiad, Pwynt Penderfynu, Paratoi Dogfen)

 Gwerthusiad/Argymhelliad

 Tendir (Mae'r tendr yn weithredol ac yn agored i gyflwyno cynigion)

 Dyfarnu a Chyflwyno


Gwasanaethau Proffesiynol – Piblinell Gweithgarwch Caffael									
Prosiect Arfaethedig	Gwerth Blynyddol Amcangyfrifedig	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
		Ebr-Meh 2015	Gorff-Med 2015	Hyd-Rhag 2015	Ion-Maw 2015	Ebr-Meh 2016	Gorff-Med 2016	Hyd-Rhag 2016	Ion-Maw 2016
Yswiriant	£35,400,000								
Ymgynghoriaeth TGCh	£18,800,000								
Ymgynghoriaeth Busnes	£25,500,000								
Gwasanaethau Cyfreithiol – Cyfreithwyr	£20,050,000								
Gwasanaethau Cyfreithiol gan y Fframwaith Bargyfreithwyr									
Gwasanaethau Ariannol – Gwasanaethau Bancio									
Gwasanaethau Ariannol – Casglu Arian Parod	£900,000								
Ymgynghorwyr – Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 2	£5,000,000								
Ymgynghorwyr – Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 3	£5,000,000								
<b>Cyfanswm</b>	<b>£110,650,000</b>								


Mae pob fframwaith ymgynghori yn cynnwys canllaw manwl i ddefnyddwyr ar ddyfarnu busnes o dan y fframweithiau, fodd bynnag, cynghorir sefydliadau i geisio arbenigedd i ddechrau gan gyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, a allai feddu ar arbenigedd ac sy'n gallu rhannu eu harbenigedd cyn ymrwymo i gontract masnachol.

## Bwyd a Diod

Ar hyn o bryd mae bwyd yn cael ei gaffael ar sail sector yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae prynu bwyd a diod yn cynrychioli maes gwariant arwyddocaol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r GCC, mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn dechrau gweithio ar strategaeth ar gyfer caffael bwyd erbyn diwedd 2015. Elfen hollbwysig ar gyfer mabwysiadu'r categori hwn yw ymgysylltu â'r arbenigwyr maeth a diogelwch bwyd sydd eisoes yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod GCC yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud ar draws yr awdurdodau lleol a'r sectorau iechyd.

### Allwedd

 Paratoi (Dadansoddiad, Pwynt Penderfynu, Paratoi Dogfen)

 Tendir (Mae'r tendr yn weithredol ac yn agored i gyflwyno cynigion)

 Gwerthusiad/Argymhelliad


 Dyfarnu a Chyflwyno

Bwyd a Diod – Piblinell Gweithgarwch Caffael									
Prosiect Arfaethedig	Gwerth Blynyddol Amcangyfrifedig	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
		Ebr-Meh 2015	Gorff-Med 2015	Hyd-Rhag 2015	Ion-Maw 2015	Ebr-Meh 2016	Gorff-Med 2016	Hyd-Rhag 2016	Ion-Maw 2016
Bwydydd wedi'u Rhewi	£13,275,800								
Amgylchynol	£13,275,000								
Cig Ffres (Yn Cynnwys Dofednod ac Wyau)	£9,020,000								
Llaeth	£6,018,800								
Diodydd (Yn cynnwys Dŵr), Creision a Melysfwd	£7,314,000								
Bara a Phobyddiaeth	£3,099,600								
Ffrwythau a Llysiau	£6,059,800								
Cynnyrch Llaeth (Ac eithrio Llaeth)	£2,115,600								
Bwydydd	£828,200								
<b>Cyfanswm</b>	<b>£61,008,000</b>								



## 4. Cytundebau Contract a Fframwaith

Mae'r GCC yn ymgorffori egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) ym mhob cytundeb contract a fframwaith y mae'n eu prydlesu a'u rheoli, a chyflwynir Buddiannau Cymunedol pan fydd yn berthnasol. Mae'r egwyddorion yn cael eu hymgorffori mewn model gweithredu safonol sydd mewn grym yn awr ar gyfer y gwasanaeth ac sydd wedi'u hymgorffori yng ngwaith y timau categorïau (diagram isod).



Mae'r GCC yn rhoi rhybudd cynnar i gyflenwyr er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth gyffredinol yn bodoli o gyfleoedd newydd yn cynnwys, pan fydd yn bosibl:

- Hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cael eu cyflwyno yn unol â phrosesau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd rhwng 3 a 6 mis cyn dechrau caffael ar GwerthwchiGymru.
- Gweithio'n agos gyda Busnes Cymru i annog a helpu busnesau yng Nghymru i gyflwyno tendrau ar gyfer cyfleoedd yn y sector cyhoeddus drwy gynnal digwyddiadau i gyflenwyr a hysbysebu'r gwasanaethau y gall Busnes Cymru eu cynnig.

Mae pob contract a fframwaith yn cael eu teilwra ar gyfer eFasnachu Cymru.

Mae'r GCC wedi creu cyfanswm o chwe fframwaith Cymru gyfan ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Mae'r tabl isod yn rhestru'r fframweithiau hyn, y mis dyfarnu, gwerth blynyddol pob un a'r % o gyflenwyr o Gymru a Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru sydd wedi derbyn lle ar bob un.

Teitl y Contract	Mis Dyfarnu	Gwerth Blynyddol (£)	% o Gyflenwyr o Gymru	% o BBaCh o Gymru
Fframwaith Cyfieithu Cymraeg	Meh 14	£1.7 miliwn	100%	97%
Cymru Effeithlon	Gorff 14	£4.7 miliwn	46.5%	38.9%
Gwasanaethau a Reolir gan GCC ar gyfer Gwasanaethau Argraffu	Medi 14	£12 miliwn	71%	71%
Ymgynghoriaeth Adeiladu	Ion 15	£13.5 miliwn	43%	40.5%
Darparu Deunydd Ysgrifennu a Phapur (Lot 2)	Ion 15	£2.4 miliwn	0%	0%
Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol	Chwef 15	£11.8 miliwn	60%	53%

## Piblinell Gwaith

Mae piblinell gweithgarwch caffael wedi'i sefydlu sy'n nodi gwaith caffael arfaethedig GCC. Mae gan y piblinell werth o £1.1 biliwn ar hyn o bryd, a disgwylir iddo gynyddu i gwmpasu pob gweithgarwch, gyda gwerth blynyddol o £2.2 biliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16.

Mae'r piblinell yn gweithredu o dan y fethodoleg DDARBODUS ac mae'n darparu amserlen weladwy a manwl o'r cerrig milltir allweddol ar gyfer pob cam o'r gweithgarwch caffael.

Mae'r GCC yn cefnogi WPPS ym mhob agwedd o'i waith, ac mae'r Fframwaith Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru yn darparu enghraifft wych o hyn:

Fframweithiau Cymru Effeithlon yn erbyn Datganiad Polisi Caffael Cymru	
Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Economaidd	<p>Elfen hollbwysig o'r cymorth a roddir gan wasanaeth arloesol Cymru Effeithlon a lanswyd ym Medi 2014.</p> <p>Roedd yn disodli model cyflenwi 10 mlynedd o roi grantiau i nifer fach o ddarparwyr blaenllaw. Bydd llunio contractau gyda'r cyflenwyr yn darparu Fframwaith sy'n werth £40 miliwn gydag arbedion amcangyfrifedig o £4 miliwn dros bedair blynedd.</p> <p>Cynhaliwyd asesiad risg cynaliadwy er mwyn sicrhau bod materion moesegol a chynaliadwy yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau caffael pwysig. Arweiniodd hyn at ddatblygu model caffael a oedd yn rhoi cyfle gwirioneddol i BBaCh ennill lle ar y fframwaith.</p>
Buddiannau Cymunedol	<p>Ers mis Gorffennaf cyflawnwyd arbedion a buddiannau sylweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhaliwyd 18 o gystadlaethau bychain.</li> <li>• O'r 18 o gystadlaethau bychain a gynhaliwyd dyfarnwyd £3,035,358 i BBaCh yng Nghymru.</li> <li>• Mae economi Cymru wedi elwa o gyfanswm o £6,116,716.</li> </ul>
Cystadleuaeth Hygyrch Agored	<p>Rhodddwyd rhybudd cynnar i gyflenwyr i sicrhau bod ymwybyddiaeth eang o gyfleoedd newydd. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn unol â phrosesau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd rhwng 3 a 6 mis cyn i'r broses gaffael ddechrau. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu'r farchnad cyn ac yn ystod y broses dendro yn Hydref 2013 ac Ionawr 2014.</p> <p>Cafodd y Fframwaith ei osod mewn dwy lot. Roedd dadansoddi'r fframwaith ymhellach yn ddisgyblaethau arbenigol yn galluogi micro fusnesau i gyflwyno cynnig cadarn ar gyfer disgyblaeth benodol fel cwmnïau mwy.</p> <p>Roedd y Fframwaith hefyd yn cynnig cyfleoedd i nifer o gyflenwyr o ficro fusnesau arbenigol i ddarparwyr rhyngwladol; roedd 72 o'r cyflenwyr yn llwyddiannus; roedd 46.5% yn gyflenwyr o Gymru ac roedd 38.9% o'r rhain yn BBaCh o Gymru. Mae 12 o BBaCh eraill yn rhan o gonsortia.</p>

<b>Fframweithiau Cymru Effeithlon yn erbyn Datganiad Polisi Caffael Cymru</b>	
Proses Safonol Mwy Syml	Mabwysiadwyd y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) i sicrhau dull mwy syml o ddewis cyflenwyr.
Cydweithrediad	Roedd y model hefyd yn caniatáu cydweithrediad a chystadlaethau bychain a oedd yn golygu y gallai ymgeiswyr llai ymuno â'i gilydd i wneud cynnig am gyfleoedd mwy.
Ymgysylltiad Cyflenwyr ac Arloesedd	Derbyniwyd nifer o gynigion consortia sy'n ategu'r Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.  Yn ogystal â'r digwyddiad lansio'r fframwaith a gynhaliwyd yn Gorffennef 2014, datblygwyd fframwaith model mewn partneriaeth â'r ymgeiswyr fframwaith a oedd yn galluogi i gonsortia gael eu creu ar gyfer anghenion fframwaith penodol.  Mae hyn wedi gweld nifer o gonsortia yn cael eu creu gan ddarparwyr y fframwaith i wneud cynnig am waith sy'n rhychwantu nifer o ddisgyblaethau.

## Hysbysiadau Contract

Yn ogystal â'r contractau a ddyfarnwyd, mae'r GCC hefyd wedi cyhoeddi cyfres o hysbysiadau contract ar GwerthwchiGymru ar gyfer nifer o feysydd nwyddau gwahanol. Mae pob un o'r contractau hyn, wedi'u dyfarnu'n llwyddiannus yn awr ac maent ar gael i randdeiliaid GCC.

<b>Contract/Fframwaith</b>	<b>Dyddiad Cyhoeddi'r Hysbysiad Contract</b>
Iechyd Galwedigaethol	Rhagfyr 2014
Asiantaeth	Rhagfyr 2014
Llogi Cerbydau	Ionawr 2015
Tanwydd Hylif	Ionawr 2015
Dodrefn	Ionawr 2015
System Rheoli Llyfrgelloedd	Ionawr 2015
Gwasanaethau Glanhau	Chwefror 2015

## Arbedion

Roedd methodoleg arbedion GCC yn ymgorffori adborth gan randdeiliaid, methodoleg a gymeradwywyd gan Fwrdd GCC.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15, cyhoeddodd GCC arbedion ariannol o £7.8 miliwn ar draws Sector Cyhoeddus Cymru, yn erbyn targed cyffredinol o £4.2 miliwn, yr oedd £1.5 miliwn ohono'n arian parod. Cafodd y targedau hyn o'r achos busnes amlinellol a'r cynnydd eu trafod a'u nodi bob mis drwy Grŵp Cyflawni'r GCC gyda phob Pennaeth Caffael yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r fethodoleg arbedion a'r dulliau adrodd.


Mae'r GCC wedi cymryd cyfrifoldeb am 16 o gytundebau fframwaith, a ddyfarnwyd gan gyrff eraill y sector cyhoeddus yn wreiddiol ac mae wedi bod yn rheoli a meincnodi'r contractau hyn, a'u hail-negodi mewn rhai achosion.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r arbedion yn ôl Categoriâu'r GCC ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 ac mae'n cynnwys rhai arbedion yn erbyn y contractau a drosglwyddwyd i'r GCC yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15. Cyhoeddwyd yr arbedion ar gyfer 2014/15 yn unol â'r fethodoleg arbedion y cytunwyd arni a gymeradwywyd gan y Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2012.





**Arbedion v Targedau – y flwyddyn hyd yma**



## 5. Gwybodaeth Busnes (GB)

Mae GB wedi sefydlu offer newydd a hollbwysig ar gyfer GCC a sefydliadau sy'n aelodau, sy'n:

- Cyflawni yn erbyn targedau perfformiad allweddol GCC
- Cyflawni Gwybodaeth Rheoli ar wariant cyflenwyr a rhanddeiliaid yn adrodd ar wariant
- Cynhyrchu piblinellau o weithgarwch caffael manwl, yn cynnwys monitro ac adrodd am eithriadau i'r Grŵp Cyflawni
- Mynediad at wybodaeth am y farchnad – ymgorffori dadansoddiad y diwydiant a sgoriau risg

Mae'r adran Gwybodaeth Busnes wedi datblygu warws data newydd i gasglu Gwybodaeth Rheoli er mwyn helpu i ddadansoddi categorïau, Casglu Ad-daliadau Gorfodol gan Gyflenwyr a gwella'r gallu adrodd ar gyfer 2015/16.

### Adrodd

Mae tîm Gwybodaeth Busnes GCC wedi datblygu cyfres o adroddiadau manwl sy'n eu galluogi i adrodd ar wariant, arbedion ac incwm gan yr ad-daliad gorfodol gan gyflenwyr yn y ffyrdd canlynol:

- Ar lefel grynodedb ar gyfer holl randdeiliaid GCC
- Ar lefel sector
- Ar lefel categori
- Lefel sector yn ôl categori
- Lefel sector yn ôl contract
- Lefel cytundeb a chontract
- Yn fisol, chwarterol a blynyddol

Mae adroddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer pob sector ac yna'n cael eu cyflwyno i gynrychiolwyr Grŵp Cyflawni'r GCC i'w dosbarthu i'w sectorau yn fisol. Mae gwaith datblygu pellach yn mynd rhagddo i greu sector cryno ac adroddiadau sefydliadol i'r Prif Weithredwyr, Rheolwyr Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid a datblygu system i gasglu ac adrodd Gwybodaeth Rheoli Sefydliadol.

## Catalogio

Mae'r tîm Gwybodaeth Rheoli hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau catalogio uwch-ddefnyddwyr. Mae'r GCC wedi trosglwyddo 103 o gatalogau o ePS, sy'n cynnwys contractau Gwerth Cymru a Chonsortium Prynu Cymru.

# 6. Cyfathrebu



Cafodd Tîm Cyfathrebu'r GCC ei sefydlu'n llawn ym mis Rhagfyr 2014. Mae dau aelod o'r Tîm yn siaradwyr Cymraeg rhugl, sy'n sicrhau bod holl waith GCC yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn elfen hollbwysig i lwyddiant GCC felly mae Strategaeth Gyfathrebu gynhwysfawr wedi'i datblygu. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu yn cyd-fynd â Strategaeth Gyfathrebu Llywodraeth Cymru ac mae eitemau newyddion yn cael eu darparu ar gyfer gwefan Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn mae nifer o sianelau cyfathrebu wedi'u haddasu i sicrhau bod sefydliadau aelod a chyflenwyr yn ymgysylltu'n briodol ac wedi'u hysbysu'n ddigonol.

Mae gwefan GCC wedi'i hadolygu a'i diweddarau'n llawn. Mae datganiadau gan Fwrdd GCC a chyfarfodydd y Grŵp Cyflawni, sy'n cynnwys trafodaethau a phenderfyniadau pwysig, yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd i randdeiliaid drwy e-bost a'u llwytho i wefan GCC.

Mae rhanddeiliaid yn derbyn gwybodaeth am Gontractau a Fframweithiau'r GCC drwy'r 'Hysbysiadau Dyfarnu i Gwsmeriaid'. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi drwy e-bost i'r Penaethiaid Caffael i sefydliadau aelod ac aelodau'r Grŵp Cyflawni.

Cynhaliwyd adolygiad o ddeunyddiau marchnata'r GCC ym mis Ionawr ac yn dilyn yr adolygiad hwn cafodd taflenni, taflenni gwybodaeth a chardiau z eu cynhyrchu.

Mae'r GCC yn gwneud defnydd gweithredol o'r cyfryngau cymdeithasol, drwy sianelau Twitter presennol @NPSWales a @gcccmru, a'r dudalen newydd ar LinkedIn. Mae cynllun wedi'i ddatblygu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, sy'n ymgorffori'r sianelau Twitter a LinkedIn.

Mae'r GCC yn gweithio'n agos gyda GwerthuiGymru a Busnes Cymru i gynllunio a rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymestyn cyrhaeddiad GCC drwy'r dull cydgyssylltiedig hwn. Defnyddir negeseuon y cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio traffig i wefannau'r GCC a GwerthuiGymru, ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy Hootsuite Analytics a Google Analytics.

Yn ystod y cyfnod cyn digwyddiad Procurex Live Cymru ar Fawrth 18, datblygwyd hashnodau penodol i gynhyrchu diddordeb cyn ac ar ôl y digwyddiad ac annog rhanddeiliaid i ymgysylltu drwy drydaru'n fyw yn y digwyddiad. Roedd defnyddio'r hashnodau hyn drwy sianelau Twitter GCC, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, GwerthuiGymru, Busnes Cymru a Procurex wedi creu gweithgarwch mawr yn y cyfryngau cymdeithasol ehangach am y digwyddiad. Rhwng Chwefror 1 a Mawrth 31, profodd cyfrifon Twitter GCC gynnydd o 39 o ddilynwyr, cafodd negeseuon eu hail-drydaru 92 o weithiau, a defnyddiwyd hashnodau'r digwyddiad 194 o weithiau.

## 7. Digwyddiadau Pwysig

### Lansio'r Categori Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau (Mehefin 2014)

Ym mis Mehefin 2014 lansiodd Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ddigwyddiad Categori Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau'r GCC, sef cyflawniad cyntaf GCC.

Daeth mwy na 80 o unigolion i'r digwyddiad hwn, ac yn eu plith roedd 35 o'r prif gyflenwyr ar gyfer Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau a nifer o rhanddeiliaid sydd â contractau presennol gyda'r prif gyflenwyr.

Yn y digwyddiad gofynnwyd i'r cyflenwyr edrych ar ostyngiadau prisiau, safoni prisiau a gweithio gyda'r GCC i sicrhau arbedion drwy biblinell caffael a rheoli contractau'n barhaus gyda'u cwsmeriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn cyflawni'r targed arbedion. Rhoddwyd trosolwg hefyd i'r cyflenwyr o rôl GCC a diweddariad ar y Strategaeth Categoriâu ar gyfer Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau yn GCC.

Awgrymwyd cynigion o tua £4.6 miliwn o gyfleoedd arbed gan y cyflenwyr a chafodd y cyfleoedd priodol eu datblygu gan y sefydliadau rhanddeiliaid.

### Procurex Live (Mawrth 2015)

Cynhaliwyd Procurex Live yng Nghymru am y tro cyntaf fel rhan o'r Wythnos Gaffael ar 18 Mawrth. Cafodd y digwyddiad ei gynnal ar y cyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Gwerth Cymru a Busnes Cymru.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i'r gymuned gaffael ddod ynghyd i drafod yr heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a darparu cyfle unigryw i brynwyr a chyflenwyr gydweithio, gwella eu gwybodaeth gaffael a rhannu arfer da. Roedd mwy na 800 o gynrychiolwyr wedi cofrestru i fynychu'r digwyddiad, ac roedd mwy na 500 wedi mynychu ar y diwrnod. Y digwyddiad oedd y casgliad mwyaf o weithwyr caffael proffesiynol y sector cyhoeddus a welwyd erioed yng Nghymru. Ers y digwyddiad hwn mae nifer o gyflenwyr o'r trydydd sector a oedd wedi cael cynnig lleoedd am ddim wedi ennill contractau newydd yn y sector cyhoeddus i gyflawni eu gwasanaethau.

Cafwyd y brif araith gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ac fe amlygodd bwysigrwydd Datganiad Polisi Caffael Cymru a chaffael y sector cyhoeddus. Yna cafwyd areithiau gan siaradwyr

proffil uchel eraill a oedd yn trafod testunau a gynlluniwyd i wella dealltwriaeth a gwybodaeth y cynrychiolwyr o'r datblygiadau, mentrau a newidiadau deddfwriaethol diweddaraf ym maes caffael.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau grŵp yn ystod y dydd gan arweinwyr a chyflenwyr o'r sector cyhoeddus ar bynciau sy'n berthnasol i gaffael yng Nghymru, yn cynnwys Risgiau'r Gadwyn Gyflenwi, Buddiannau Cymunedol, Polisi Caffael Cyhoeddus yng Nghymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Roedd 30 o gwmnïau yn arddangos eu cynnyrch a'u gwasanaethau hefyd ar stondinau ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Busnes Cymru a Gwerth Cymru.

Rhan o rôl GCC yw codi ymwybyddiaeth yn y gymuned gaffael a'r gymuned gyflenwi, dod â phobl ynghyd i gyflawni canlyniadau gwell drwy gcontractau am nwyddau a gwasanaethau a sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o wasanaethau megis Busnes Cymru, sy'n gallu cefnogi eu cyflwyniadau tendr.



## 8. Staff GCC

Cafodd GCC ei sefydlu o dan Achos Busnes Amlinellol a oedd yn pennu nifer y staff yn y gwasanaeth. Pennwyd hyn fel 42 o swyddi sy'n gyfwerth â swyddi llawn amser.

Ar ddechrau Ebrill 2014 roedd gan GCC 32 o gyflogeion parhaol, 9 aelod o staff asiantaeth ac un gweithiwr ar secondiad o un o adrannau eraill Llywodraeth Cymru.

Erbyn diwedd Mawrth 2015 roedd gan GCC gyflenwad llawn o staff a oedd yn cynrychioli 42 o swyddi llawn amser a oedd yn cael eu cyflawni gan 43 aelod o staff gyda dau aelod o staff yn gweithio'n rhan amser.

Dim ond un aelod o staff asiantaeth sydd wedi parhau yn ei swydd ac mae'n gweithio yn swydd Pennaeth y Categori Bwyd. Mae'r swydd hon yn cael ei hysbysebu yn awr er mwyn sicrhau deiliad parhaol.

Mae aelodau o staff GCC yn cael eu dyrannu ar draws y timau yn cynnwys uwch categorïau, gwybodaeth busnes, cyllid, busnes, cyfathrebu a swyddogaethau cymorth eraill.

Roedd yr Achos Busnes Amlinellol yn argymhell un aelod o staff yn wreiddiol ar gyfer £10 miliwn o wariant sy'n cael ei reoli. Mae datblygu'r Cynllun Busnes wedi arwain at ailsefydlu'r rhagdybiaeth hon yn unol â'r arfer gorau ac effeithlonwydd gweithredol uwch o un aelod o staff fesul £20 miliwn o wariant o dan reolaeth.

## Staff GCC yn ôl Timau


Staff GCC (Mawrth 2015)	Cyferth â Llawm Amser	Niferoedd
Cyfarwyddwr Timau	2.00	2
Pennaeth Rheoli Categorïau	2.00	2
Uwch Reolwr Rhanddeiliaid, Cyllid a Busnes	3.00	3
Tim Cyfathrebu	2.00	2
Tim Gwybodaeth Busnes	6.00	6
Tim y Categori TGCh	5.00	5
Tim Categori Gwasanaethau Proffesiynol	4.00	4
Tim Rheoli Cyfleusterau ac Adeiladu	5.00	5
Tim Categori Gwasanaethau Corfforaethol	4.00	4
Tim Categori Gwasanaethau Pobl	5.40	6
Tim Categori Fflyd	3.00	3
Categori Bwyd – staff asiantaeth	1.00	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>42.40</b>	<b>43.00</b>

## Aelodau o Staff GCC yn ôl Lleoliad

Nifer yn ôl lleoliad	Bedwas	Abertawe	Llandudno	Cyfanswm
Swyddi sy'n gyferth â llawn amser	26.8	7	8.6	<b>42.4</b>
Niferoedd	27	7	9	<b>43</b>

## Safonau'r GCC

Mae'r diagram isod yn dangos y safonau sy'n darparu'r sail ar gyfer nodi a chyflawni perfformiad cadarn a sgorau uchel posibl, ac maent wedi'u cysylltu â safonau ac ymrwymiadau allweddol eraill: Maent yn ymgorffori'r sgiliau a'r ymddygiad y disgwylir i bawb yn yr adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid, ar bob gradd, eu harddangos i safon uchel a chyson bob amser.



## Cymwysterau Proffesiynol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae pob aelod o staff GCC sy'n ymgymryd â gweithgarwch proffesiynol yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyflawni cymwysterau proffesiynol cysylltiedig a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Staff GCC sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol	Nifer
Cymrawd – Y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi	1
Aelod – Y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi	27
Myfyriwr – Y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi	3
Aelod – Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>32</b>

Mae hyfforddiant Moeseg CIPS yn orfodol i bob aelod o staff sy'n ymwneud â gweithgareddau caffael. Mae'r GCC yn gweithio i fabwysiadu fframwaith cymhwyster rhyngwladol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi.

## Cyllid – DPP

Cynhelir DPP yn unol â Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli (CIMA). Mae hon yn elfen hollbwysig i aelodaeth y Sefydliad a gellir archwilio cofnodion DPP unigol unrhyw amser. Nid yw DPP yn seiliedig ar oriau ac nid yw'n cael ei bennu gan CIMA. Mae nodi gofynion DPP yn fater i'r unigolyn, er mwyn sicrhau eu bod yn diweddarau eu sgiliau technegol a'u sgiliau gwaith yn unol â'r gwaith maent yn ei wneud ac ar gyfer uchelgeisiau gyrfa. Gellir cynnal dysgu DPP mewn fformatau gwahanol, fodd bynnag, mae'n rhaid dangos yn glir sut y cafodd y gofyniad ei nodi, ei gynnal, y canlyniadau dysgu a DPP ychwanegol yn y dyfodol.

## Ariannu'r GCC – Buddsoddi i Arbed

Mae'r GCC wedi derbyn cyllid Buddsoddi i Arbed yn ystod 3 blwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Tachwedd 2013.

Mae'r cyllid Buddsoddi i Arbed ar ffurf benthyciad y gellir ei ad-dalu ar ôl i'r GCC ddod yn gwbl weithredol a'u bod yn cyflawni gwargedion sy'n golygu y gallant ad-dalu'r benthyciad hwn.

Dyrannwyd £5.920 miliwn o gyllid Buddsoddi i Arbed i'r GCC dros 3 blynedd ers lansio'r GCC ym mis Tachwedd 2013 hyd at ddiwedd Mawrth 2016.

Dangosir y dyraniad ar draws cyfnod 3 blynedd y cyfnod buddsoddi yn y tabl isod:

Benthyciad Buddsoddi i Arbed	£
Blwyddyn ariannol 2013-14	1,184,000.00
Blwyddyn ariannol 2014-15	2,618,000.00
Blwyddyn ariannol 2015-16	2,118,000.00
<b>Cyfanswm y Benthyciad Buddsoddi i Arbed</b>	<b>5,920,000.00</b>

## 9. Cyllid GCC yn y Dyfodol – Cynhyrchu Incwm

Pan fydd GCC yn gwbl weithredol o 1af Ebrill 2016 bydd angen talu am y costau gweithredol drwy gasglu Ad-daliadau Gorfodol Gan gyflenwyr a fydd yn cynhyrchu incwm.

Mae'r GCC yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a'r costau gweithredol yw'r rhai sy'n gysylltiedig â chyflogau staff, costau sy'n gysylltiedig â staff megis hyfforddiant, offer symudol a theithio a chynhaliaeth. Bydd angen talu am unrhyw gostau gweithredol ychwanegol hefyd, megis cyfieithu, gwasanaethau cyfreithiol, y wefan, deunyddiau cyhoeddusrwydd. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gostau cyffredinol eraill fel cyflogwyr y staff sy'n gweithio i'r GCC.

Defnyddir unrhyw incwm dros ben i ad-dalu'r benthyciad Buddsoddi i Arbed i ddechrau.

Bydd ad-daliadau gorfodol cyflenwyr yn ganran (wedi'i phennu ar 0.45% ar hyn o bryd) o werthiant nwyddau/gwasanaethau a briodolir i gyflenwr yn erbyn contract/fframwaith a ddyfarnwyd iddynt drwy'r GCC. Bydd unrhyw newidiadau i'r ad-daliad yn cael eu cytuno drwy Fwrdd GCC.

Mae model ariannol manwl wedi'i ddatblygu i ragweld ac olrhain yr incwm sy'n cael ei gynhyrchu a'r gwariant posibl drwy fframweithiau'r GCC ac mae'r model yn cael ei adolygu'n fisol gan ddefnyddio data gwirioneddol i ddiweddarau'r rhagolygon.



# 10. Adroddiad Ariannol 2014-15

## Gwariant

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol o 1af Ebrill i 30ain Mawrth (2014-15) sef blwyddyn weithredol gyntaf GCC.

Alldro'r GCC yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hon oedd £2.612 miliwn yn erbyn dyraniad o £2.618 miliwn a dynnwyd i lawr gan Buddsoddi i Arbed.

Gwariant GCC ar gyfer 2014-15 oedd £2.655 miliwn.

Y cyllid a dynnwyd i lawr gan Buddsoddi i Arbed oedd £2.618 miliwn gyda'r GCC yn anfonebu am ad-daliad o £0.043 miliwn, a oedd yn creu cyllideb o £2.661 miliwn.

Roedd tanwariant o £0.006 miliwn sy'n 0.2% o'r gyllideb gyflawn.

Prif wariant GCC oedd costau staff, gyda 91% o'r costau wedi'u priodoli i gostau cyflog staff yn cynnwys y staff asiantaeth hynny a oedd yn gweithio mewn swyddi nes y byddai staff parhaol yn cael eu recriwtio.

Roedd 6% arall o'r costau ar gyfer gwariant a oedd yn gysylltiedig â staff, megis teithio a chynhaliaeth, ffioedd proffesiynol, recriwtio, llogi ceir a gwasanaeth telefoni symudol.

Roedd y 3% sy'n weddill yn cwmpasu'r holl gostau ychwanegol eraill a dalwyd gan GCC wrth weithredu. Roedd hyn yn cynnwys dyddiau cyflenwyr, ymgysylltu â rhanddeiliaid, deunyddiau cyhoeddusrwydd, costau cyfreithiol, cyfieithu a chostau cysylltiedig.

## Incwm

Nid oedd disgwyl i incwm gael ei gynhyrchu ar gontractau'r GCC hyd at flwyddyn ariannol 2015-16. Fodd bynnag, cynhyrchwyd swm bychan o incwm yn ystod 2014-2015 ar ddau gontract.

Nid oedd model gweithredu'r GCC wedi cynnwys cyllid ar gyfer adnoddau i dalu am y gwaith o dderbyn contractau presennol felly llwyddodd y llif incwm bychan i leddfu rhai o'r pwysau cyllidebol drwy gynnwys y gwaith ychwanegol hwn nad oedd wedi'i ariannu.

Anfonebwyd cyfanswm o £0.043 miliwn o incwm ym Mawrth 2015.

# 11. Y Dyfodol

Bydd y GCC yn parhau i dyfu a chyflawni'r piblinell o weithgareddau, yn unol â'r categorïau gwariant y cytunwyd arnynt, gan ystyried gofynion Datganiad Polisi Caffael diwygiedig Cymru a bydd yn ceisio cynyddu defnydd ei gwsmeriaid o fframweithiau a chontractau sydd wedi'u cyflwyno. Yn ogystal, bydd y gweithgarwch canlynol yn adeiladu ar y seiliau hyn:

## Cynllun Busnes

Lansiodd GCC ei gynllun busnes pedair blynedd gyntaf ar gyfer GCC a oedd yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 205 i Fawrth 2019. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi strategaethau a chyflawniadau'r GCC ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gyda throsolwg manwl o weithgareddau o fis Ebrill 2015 i ddiwedd Mawrth 2016.

Bydd y Cynllun Busnes yn cael ei ddiweddarau a'i ail-gyhoeddi'n flynyddol er mwyn cyflwyno gwybodaeth am gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad a thargedau cyflawni allweddol.

## Archwiliadau

Bydd GCC yn destun archwiliadau rheolaidd gan adran Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, gydag adolygiad o lwyddiant y sefydliad wedi'i drefnu ar ôl Mawrth 2016. Hefyd, bydd GCC yn destun gwiriadau ffitrwydd i gaffael a fydd yn cael eu cynnal ar draws y sector cyhoeddus gan Gwerth Cymru. Mae'r gwiriad cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 2015.

## eFasnachu Cymru

Lansiwyd rhaglen e-gaffael eFasnachu Cymru yn ddiweddar gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Mae'r GCC yn defnyddio eFasnachu Cymru fel y prif ddull o ddarparu mynediad i gyrrff cyhoeddus i'w contractau a'i gatalogau cydweithredol. Mae rhaglen fabwysiadu carlam yn cael ei datblygu drwy'r Rhaglen ePS er mwyn sicrhau bod gan bob un o'r 73 o sefydliadau rhanddeiliaid fynediad i'r system.